**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 28 Ionawr 2021 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | B Hopkins | S Pritchard |
| P M Black | D H Hopkins | A Pugh |
| J E Burtonshaw | L James | J A Raynor |
| M C Child | O G James | C Richards |
| N J Davies | Y V Jardine | K M Roberts |
| A M Day | J W Jones | B J Rowlands |
| P Downing | L R Jones | M Sherwood |
| C R Doyle | M H Jones | P B Smith |
| M Durke | P K Jones | R V Smith |
| C R Evans | S M Jones | A H Stevens |
| V M Evans | E J King | R C Stewart |
| W Evans | M A Langstone | D G Sullivan |
| E W Fitzgerald | A S Lewis | M Sykes |
| R Francis-Davies | M B Lewis | G J Tanner |
| S J Gallagher | W G Lewis | M Thomas |
| L S Gibbard | C E Lloyd | L G Thomas |
| F M Gordon | P Lloyd | W G Thomas |
| K M Griffiths | I E Mann | L J Tyler-Lloyd |
| J A Hale | P M Matthews | G D Walker |
| D W Helliwell | P N May | L V Walton |
| T J Hennegan | H M Morris | T M White |
| C A Holley | D Phillips | |
| P R Hood-Williams | C L Philpott | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Julie Davies | Head of Child & Family Services |
| Helen St John | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, E T Kirchner a/ac R D Lewis

---

## 42. Election of Chair Pro Tem

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod yr Aelod Llywyddol yn cael anhawster technegol gyda'i seinyddion ac y byddai ychydig funudau'n hwyr yn ymuno â'r cyfarfod.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd M C Child (Yr Arglwydd Faer) yn Gadeirydd Dros Dro.

**Bu'r Cynghorydd M C Child (Yr Arglwydd Faer) yn llywyddu**

## 43. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ar eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen
"Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan yn unig. Nid oes angen dychwelyd taflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr M Durke, C A Holley ac A Pugh gysylltiad personol â Chofnod 50 "Adroddiad Blynyddol 2019-2020 - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol".

2) Datganodd y Cynghorydd H M Morris gysylltiad personol â Chofnod 51 “Mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor” a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei thrafod.

3) Datganodd y Cynghorwyr M C Child, R Francis-Davies ac R V Smith gysylltiad personol â Chofnod 55 "Cwestiynau'r Cynghorwyr - Cwestiwn 9".

## 44. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020.

## 45. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

**Bu'r Cynghorydd D W W Thomas (Aelod Llywyddol) yn llywyddu**

## 46. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Cydymdeimladau

### a) Yr Henadur Anrhydeddus a'r cyn-Gynghorydd W John F Davies

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol â thristwch at farwolaeth ddiweddar yr Henadur Anrhydeddus a'r cyn-Gynghorydd, W John F Davies. Cynrychiolodd John Ward Treforys am bron 30 o flynyddoedd yn gwasanaethu:

- Cyngor Dinas Abertawe - 1983 tan 31 Mawrth 1996.
- Dinas a Sir Abertawe - 4 Mai 1995 tan 3 Mai 2012.

Bu John yn Arglwydd Faer rhwng 1999 a 2000. Bu hefyd yn gyn-gadeirydd y Pwyllgor Tai ac yn Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Talodd pob un o Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol neu eu Cynrychiolydd Enwebedig deyrnged i'r Henadur Anrhydeddus a'r cyn-Gynghorydd, W John F Davies.

### b) Tony Mann, Gŵr y Cynghorydd Irene Mann.

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Tony Mann. Tony oedd gŵr y Cynghorydd Irene Mann.

### c) Y cyn-Gynghorydd Dai Howells

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y cyn-Gynghorydd Dai Howells. Cynrychiolodd Dai Ward Pontarddulais am 4 blynedd yn gwasanaethu:

- Dinas a Sir Abertawe - 1 Mai 2008 tan 3 Mai 2012.

Eisteddodd pawb yn dawel i ddangos cydymdeimlad a pharch.

### 2) Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at Ddinasyddion Abertawe a dderbyniodd ddyfarniadau yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

#### a) Swyddog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE)

i) Yr Athro Farah Bhatti. Llawfeddyg cardiothorasig ymgynghorol Ysbyty Treforys. Gwasanaethau i amrywiaeth yn GIG Cymru.

**b) Aelod Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE)**

i) Alan Curtis. Gwasanaethau i bêl-droed Cymru.

ii) Carol Cecilia Doggett Prif fetron gofal dwys Ysbyty Treforys. Gwasanaethau i arweinyddiaeth a gofal nyrsio i gleifion a staff gofal dwys.

iii) Catherine Julie Palmer. Pennaeth rheoli newid DVLA Gwasanaethau i fodurwyr.

**b) Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM)**

i) Y Parchedig William Glynne George James. Prif Gaplan Heddlu De Cymru. Gwasanaethau i gaplaniaeth yr Heddlu a'r gymuned yng Ngorseinon.

ii) Karen Jane Kembery. Nyrs Glinigol Arbenigol Ysbyty CNPT. Gwasanaethau i nyrsio yng Ngorllewin Morgannwg.

**3) Cywiriadau/Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at y cywiriad/gwelliannau sy'n ofynnol i Wŷs y Cyngor.

**i) Eitem 9 "Adroddiad Blynyddol 2019/2020 - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**
Argymhelliad a ddiwygiwyd "Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-2020 i'w gyhoeddi."

**ii) Eitem 14 "Rhybudd o Gynnig - Tân Gwyllt"**
Mae'r eitem hon wedi'i thynnu'n ôl.

## 47. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Brechiadau COVID-19**

Darparodd Arweinydd y Cyngor yr ystadegau diweddaraf sy'n ymwneud â chyflwyno'r brechiadau yn lleol. Talodd deyrnged i ymdrechion pawb.

**2) Dyfarniad Cyllid Llywodraeth Cymru – Mynd i'r Afael â Digartrefedd yn y Ddinas**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at ddyfarniad cyllid gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r grant o £4.4 miliwn yn cynorthwyo'r awdurdod yn ei ymdrech i fynd i'r afael â digartrefedd yn y ddinas.

**3) Datblygiad yr Arena a Bae Copr**

Darparodd Arweinydd y Cyngor yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddatblygiad yr Arena a Bae Copr. Roedd paneli cyntaf y croen wedi'u dosbarthu a bwriedir i'r bont gael ei chodi ym mis Mawrth 2021. Disgwylir i'r Arena gael ei chwblhau yn hydref 2021.

**4) Cyllideb Amlinellol**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y gyllideb amlinellol, gan ddweud bod Craffu wedi dechrau gweithio arni.

## 48. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnwyd dau gwestiwn gan y cyhoedd.

Daeth y cyntaf gan Andrew Rowley mewn perthynas â Chofnod 55 "Cwestiynau Cynghorwyr - Cwestiwn 3 (Cysylltiadau Teithio Llesol Mayals Road, Clyne a Pharc Sgeti).

Daeth yr ail gwestiwn gan Hannah Lawson mewn perthynas â Chofnod 55 "Cwestiynau'r Cynghorwyr - Cwestiwn 9 (Safle 9, Marina Abertawe).

Ymatebodd aelodau perthnasol y Cabinet i'r cwestiynau.

## 49. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2019-2020.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (Jill Burgess) adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi gwaith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2019-2020.

## 50. Adroddiad Blynyddol 2019/20 - Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad a oedd yn nodi ei gyfrif ef o daith wella'r cyngor i 2019-2020, a pha mor dda mae'r cyngor yn bodloni ei ofynion statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r adroddiad yn edrych yn ôl ar feysydd i’w gwella'r flwyddyn ddiwethaf a'r heriau a wynebwyd ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer 2020-2021. Mae'n nodi'r newidiadau a gafwyd o fewn y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn gwneud cynnydd tuag at ganlyniadau llesiant cenedlaethol.

Hefyd, darparodd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Phennaeth y Gwasanaethau Integredig yr wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith yn ystod y cyfnod.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-2020 i'w gyhoeddi.

## 51. Mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn esbonio'r gofyniad i ystyried yn flynyddol a ddylid diwygio neu ddisodli Cynllun Gostyngiadau Treth y

Cyngor presennol y cyngor a'r gofyniad naill ai i fabwysiadu cynllun newydd neu ailfabwysiadu'r cynllun presennol erbyn 31 Ionawr 2021. Argymhellodd yr adroddiad y dylid ail-fabwysiadu'r cynllun presennol fel y nodir yn Adran 3 o'r adroddiad o 2021-2022.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodi Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru erbyn hyn) ar 26 Tachwedd 2013, fel y'u diwygiwyd.

2) Nodi'r diwygiadau i'r "Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig" a gynhwysir yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a’r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021 a ystyriwyd ac a gymeradwywyd gan Senedd Cymru ar 12 Ionawr 2021.

3) Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd gan y cyngor ym mis Tachwedd 2018 ar feysydd dewisol y cynllun presennol.

4) Y bydd y cynllun presennol (2020-2021), mewn perthynas â'r meysydd dewisol (fel y'u nodir yn Adran 3) yn aros yr un peth o 2021-2022.

5) Y bydd y cyngor yn mabwysiadu'r cynllun fel y nodir yn adran 3 o'r adroddiad hwn a bod unrhyw ddiwygiadau i'r rheoliadau a wneir gan Senedd Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun.

## 52. Adroddiad Adolygu Blynyddol Dros Dro Rheoli'r Trysorlys 2020/21

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu Adroddiad Adolygu Blynyddol Dros Dro Rheoli'r Trysorlys 2020-2021.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd P M Black "Pam bod gwahaniaeth o £40m rhwng y terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol?"

Dywedodd y Swyddog Adran 151 y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 53. Aelodaeth Pwyllgorau.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyniad a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y cyngor ar gyfer yr enwebiadau/diwygiadau i aelodaeth cyrff y cyngor.

Dywedodd fod yr Arweinydd wedi gwneud y diwygiad canlynol i Gyrff Allanol:

**Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**
Tynnu enw'r Cynghorydd M B Lewis.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd P Downing.

**Penderfynwyd** y dylid diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Y Pwyllgor Penodiadau - I ddod i rym ar 2 Chwefror 2021.**
Dileu'r Cynghorydd R Francis-Davies.
Ychwanegu'r Cynghorydd D H Hopkins.

**2) Pwyllgor Cynllunio**
Tynnu enw'r Cynghorydd C Richards.
Ychwanegu'r Cynghorydd J E Burtonshaw.

## 54. Council Procedure Rule 4 "Smoking / Refreshments / Mobile Phones / Comfort Break"

Yn unol â Rheol 4 Gweithdrefn y Cyngor gohiriodd yr Aelod Llywyddol y cyfarfod er mwyn hwyluso egwyl o 10 munud.

## 55. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A

Cyflwynwyd pymtheg (15) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiwn(cwestiynau) atodol hwnnw(hynny) yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arno(arnynt) isod:

**Cwestiwn 3**

Gofynnodd y Cynghorydd C L Philpott y cwestiwn canlynol:

*"Comisiynwyd Adroddiad Ecolegydd ar gyswllt yr Olchfa gan Gyngor Abertawe ym mis Rhagfyr 2020 ac fe'i cynhaliwyd ym mis Ionawr 2021. Pam y cyflawnwyd hyn mor hwyr yn y broses a pha gamau a gymerir mewn perthynas â'r adroddiad?"*

Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald gwestiwn:

*"Mae llwybr beicio wedi'i gynllunio ar gyfer Gorseinon Road yn fy Ward. Mae'n ymddangos mai fi yw'r unig berson yr ymgynghorwyd ag ef. Ni ymgynghorwyd â'r Cyngor Cymuned a thrigolion lleol. Mae hyn yn groes i'r canllawiau Teithio Llesol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Allwch chi esbonio?"*

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd y byddai ymatebion ysgrifenedig yn cael eu darparu.

**Cwestiwn 6**

Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley gwestiwn:

*"Rwy'n deall bod proses gyfreithiol fyw ar waith mewn perthynas â hen adeilad Oceana. Fodd bynnag, a allai Arweinydd y Cyngor roi amlinelliad o'r amserlen?"*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

**2) 'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd un (1) 'cwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

## 56. Rhybudd o Gynnig - Tân Gwyllt

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.09 pm

**Cadeirydd**